

## PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, C.A. Cave, W. Gilligan, S.J. Haines, S.M. Hanks, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, S.D. Perkes and R.R. Thomas

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned: S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), M. Wilson (Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan) (Eilydd), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), C. Hadley (Cyngor Cymuned Tregolwyn), M. Phillips (Cyngor Cymuned Dinas Powys) (Eilydd), J. Pegg (Cyngor Cymuned Ewenni) (Eilydd), Dr. M. Misra (Cyngor Cymuned Llandochau) (Eilydd), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), L. Green (Cyngor Cymuned Llanmaes) (Eilydd), P. Summers (Cyngor Cymuned Penllyn) (Eilydd), S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), I. Perry (Cyngor Cymuned St. Nicholas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog), C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

Hefyd yn bresennol: Councillors W.A. Hennessy a Dr. I.J. Johnson.

### CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cyngorwyr S. Campbell ac H.M. Payne a'r Cyngorwyr J. Andrew (Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), G. Thomas a W. Norman (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes), S. Howells (Cyngor Cymuned Penllyn), A. Parry (Cyngor Cymuned Llandochau), A. Cory (St. Georges a Cyngor Cymuned St. Brides Super Elai) ac N. Bosworth (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

## COFNODION –

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd S. Bonnar, Cyngor Cymuned Llanfair.

## DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

Rhoddodd yr Arolygydd Childs wybod i'r Pwyllgor am y mentrau cymunedol a'r materion plismona canlynol ar gyfer ardal Bro Morgannwg ers y diweddariad diwethaf a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2024 fel a ganlyn:

- Roedd y Gwasanaeth yn monitro digwyddiadau tensiwn cymunedol yn ardaloedd Sain Tathan a Llanilltud Fawr. Cynigiwyd defnyddio ardal East Camp yn Sain Tathan i gartrefu Gwladolion Affganistan wedi'u dadleoli ac roedd safle Eagleswell yn Llanilltud Fawr yn cael ei ddefnyddio i gartrefu rhai o Wladolion Wcraïn ar y safle. Bu nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r preswylwyr ar y safleoedd, a dim achosion o anhrefn, ond bu rhai protestiadau lefel isel a gweithgarwch dronau gan brotestwyr yn yr ardaloedd yr oedd y Gwasanaeth yn eu monitro'n agos ar droed a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn osgoi gwaethygu. Roedd cyfarfod cymunedol mewn perthynas ag ymestyn safle Sain Tathan wedi'i drefnu ar gyfer 6 Chwefror, yng ngofod cymunedol y Gathering Place, y byddai'r Arolygydd yn mynd iddo.
- Yn dilyn ymosodiad difrifol yn erbyn merch 12 oed, gan ddau blentyn 13 a 15 oed, roedd y Gwasanaeth yn gweithio gyda Phenaethiaid yr ysgolion yr oedd yr unigolion yn eu mynychu i gefnogi staff addysgu gyda gwaith ataliol priodol. Daethpwyd â'r ddau droseddwr i'r ddalfa'n gyflym, cawson nhw eu cyhuddo, ac yn ddiweddarach cawson nhw eu mechnïo gyda'r ymchwiliad yn parhau.
- Roedd digwyddiad niwed corfforol difrifol Adran 18 yn cynnwys arf wedi digwydd yn ardal y Barri ym mis Rhagfyr 2024, o ganlyniad i elyniaeth gyffuriau. Recordiwyd y digwyddiad hwn ar deledu cylch cyfyng. Roedd y troseddwr wedi cael ei ddal, ei gyhuddo, ac roedd yn y ddalfa tra'n aros am ymchwiliad pellach.
- Yn ddiweddar, roedd swyddogion wedi arestio unigolyn o Lundain a oedd yn dwyn olew coginio o dafarn yn ardal Saint-y-brid i'w werthu ar y farchnad agored, gan ddangos gwaith rhagweithiol da gan yr heddlu drwy nodi'r cerbydau cysylltiedig.
- Yn dilyn cyrch ym mis Ionawr 2025, roedd unigolyn wedi cael ei arestio yn ardal Penarth am fod â llawer iawn o gocên a cheisio ei guddio, gyda disgwyl i'r dedfrydu ddigwydd yn fuan iawn.
- Bu cynnydd diweddar mewn troseddau yn ymwneud â cherbydau, yn enwedig yn ardal y Barri, ond roedd dau unigolyn bellach yn y ddalfa ac roedd y Gwasanaeth yn disgwyl i'r ffigyrau trosedd cysylltiedig ostwng o ganlyniad.

- Roedd swyddogion wedi bod yn cefnogi ffermwyr yn ystod misoedd yr hydref i frwydro yn erbyn achosion o helpa gyda'r nos gyda lampau a thresmasu yn cynnwys pobl o'r frawdoliaeth deithiol. Roedd Ymgyrch Waxbry yn ceisio lleihau achosion o ddifrod i dir a da byw yn ogystal â bygythiadau trais tuag at ffermwyr. Roedd swyddogion wedi llwyddo i atafaelu nifer o gerbydau cysylltiedig a oedd wedi lleihau nifer y problemau yn sylweddol.

Yn dilyn diweddariad llafar yr Arolygydd, adleisiodd yr Is-gadeirydd y sylwadau a godwyd hefyd gan y Cadeirydd mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd yn gwerthfawrogi gallu gweld swyddogion yr Heddlu ar lawr gwlad ac yn gwneud gwaith o fewn eu cymuned a diolchodd i'r Arolygydd am ddiweddariad diddorol. Roedd yr Is-gadeirydd hefyd yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth drwy ei rôl fel Cynghorydd Tref Penarth ac awgrymodd anfon y diweddariad a roddwyd gan yr Arolygydd ymlaen hefyd at bob Cynghorydd Tref a Chymuned, yn enwedig yn ardaloedd Gorllewin y Fro, a fyddai'n gweld y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn.

Yna gofynnodd y Cynghorydd N. Hodges a oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael mewn perthynas â thafllu wyau ar adeiladau ar Heol Holltwn yn y Barri a oedd wedi achosi cryn dipyn o bryder. Mewn ymateb, dywedodd yr Arolygydd nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth benodol i'w rhannu yn y cyfarfod, fodd bynnag, mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Heol Holltwn, roedd hwn yn ardal a oedd yn cael ei phatrolio'n rheolaidd ac roedd rhai o'r bobl ifanc a fyddai'n achosi niwsans yn rheolaidd yn hysbys i swyddogion lleol.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd S. Hanks at fater llygredd sŵn ceir yn rasio i fyny ac i lawr ffordd fynediad y gogledd a gofynnodd i'r Arolygydd a oedd hefyd yn broblem mewn rhannau eraill o'r Fro. Ychwanegodd y Cynghorydd y gallai'r sŵn uchel fod yn eithaf brawychus i bobl oedranus sy'n byw ar eu pennau eu hunain a'i fod hefyd yn eithaf peryglus i yrwyr eraill a allai fod ar y ffordd gyda'r cerbydau sy'n goryrru. Mewn ymateb, dywedodd yr Arolygydd fod y gwasanaeth wedi ymateb i ddigwyddiadau o oryrru ar adegau amrywiol ar draws ffyrdd ehangach Bro Morgannwg, fodd bynnag, o gymharu ag ardaloedd eraill yn Ne Cymru, ystyriwyd bod yr achosion ym Mro Morgannwg yn fach, ond roedd yn rhywbeth yr oedd y Gwasanaeth yn ei fonitro. Er cyd-destun, dywedodd yr Arolygydd hefyd fod gwrthdrawiadau traffig ffyrdd o dan awdurdod y timau Plismona Traffig Ffyrdd, fodd bynnag, cafodd wybod am unrhyw ddamweiniau a oedd yn cynnwys marwolaethau. Mae'r timau Traffig Ffyrdd yn ymgymryd â gweithrediadau ymwybyddiaeth cyflymder a byddent yn targedu ardaloedd penodol a oedd â phroblemau ailadroddus neu dagfeydd traffig problemus.

Yna gofynnodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Dinas Powys beth oedd wedi digwydd i'r swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a oedd i fod i gael eu dyrannu i ardal Dinas Powys gan fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn sylwadau gan ei etholwyr nad oedden nhw wedi gweld swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn yr ardal. Mewn ymateb, dywedodd yr Arolygydd fod swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu wedi'u lleoli yn yr ardal a oedd yn cwmpasu holl ardal Dinas Powys yn ogystal â Phenarth ac ardal ehangach Larnog a byddai'n cysylltu â'r swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu perthnasol yn dilyn y cyfarfod i sicrhau eu bod yn ymweld â'r ardal yn fwy rheolaidd. Yn ogystal, gofynnodd yr Arolygydd i'r Cyngor Cymuned dynnu ei sylw at unrhyw faterion y teimlai'r Cyngor Cymuned yr oedd

angen ymchwilio iddynt. Fel cwestiwn atodol, gofynnodd cynrychiolydd Dinas Powys am ddiweddariad pellach mewn perthynas â'r ymosodiadau llosgi bwriadol ar gerbydau yn ddiweddar yn ardal Dinas Powys. Mewn ymateb, gwrthododd yr Arolygydd ymateb ar y pwnc adeg y cyfarfod gan fod yr achosion yn ymwneud ag ymchwiliad byw/parhaus ac felly byddai'n amhriodol iddo drafod yn y fforwm cyhoeddus.

Yna diolchodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Pen-llin i'r Arolygydd am ddwyn i sylw'r Pwyllgor y materion a brofir gan gymunedau ffermio Gorllewin y Fro a diolchodd i swyddogion am yr ymdrechion a wnaed i fynd i'r afael ag achosion o hela gyda'r nos gyda lampau. Ategodd y Cynghorydd Summers sylwadau'r Is-gadeirydd hefyd mewn perthynas â phwysigrwydd gallu gweld swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn y gymuned yn ogystal ag yng nghyfarfodydd y Cyngor a diolchodd i'r Arolygydd am ei adroddiadau rheolaidd fel rhan o agenda'r Pwyllgor. Diolchodd yr Arolygydd i'r Cynghorydd Summers am ei sylwadau a dywedodd fod gwaith recriwtio swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar y gweill adeg y cyfarfod ac y byddai'n sicrhau bod swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn rhagweithiol wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor.

Mewn ymateb i bwynt o eglurhad gan y Cynghorydd Haines, dywedodd yr Arolygydd nad oedd ei gyfeiriad at ddronau'n cael eu defnyddio yn ardal Sain Tathan yn gysylltiedig â dronau'n hedfan dros safleoedd milwrol yn yr ardal ond yn hytrach â dronau'n cael eu gweithredu gan brotestwyr mewn safleoedd domestig penodol. Fodd bynnag, roedd swyddogion wedi delio â'r mater yn gyflym iawn ac ni fu unrhyw waethygu pellach yr oedd yr Arolygydd yn ymwybodol ohono.

Yna mynegodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn ei bryderon ynghylch preswylwyr yn achosi rhwystr ar y llwybrau troed trwy barcio dwy olwyn eu cerbydau ar y droedffordd a oedd wedyn yn gwneud y droedffordd yn llai hygyrch i rai unigolion. Ar ôl gofyn am eglurhad gan y Cynghorydd Perry ynghylch lle'r oedd yr achosion yn digwydd, cydnabu'r Arolygydd fod cynnydd mewn cerbydau a pharcio ar lwybrau yn ystod amseroedd gollwng a chasglu plant ysgol yn digwydd yn rheolaidd ar draws pob ysgol ym Mro Morgannwg. Ni fyddai swyddogion mewn sefyllfa i batrolio pob ysgol yn ystod pob amser gollwng a chasglu, fodd bynnag, byddent yn rhoi gwybodaeth i Bennaeth yr ysgol o ran annog diogelwch ar y ffyrdd o amgylch cyffiniau'r ysgol, a byddai hefyd yn bosibl lleoli swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu mewn ardal benodol i geisio atal pobl rhag parcio lle bernir ei fod yn achosi rhwystr neu'n creu perygl i eraill. Yr allwedd oedd cynyddu ymwybyddiaeth rhieni a gofyn iddynt barcio ac ymddwyn yn fwy cyfrifol ac o bosibl bellter pellach i ffwrdd o'r ysgol i leddfau tagfeydd. Nid oedd yr Arolygydd yn ymwybodol o unrhyw faterion priffyrdd a oedd yn benodol i ysgolion yn ardal Sain Nicolas a Thresimwn, ond roedd hyn o dan awdurdod y tîm Plismona Traffig Ffyrdd.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Arolygydd Childs am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

Cyflwynwyd y Pwyllgor i'r Rheolwr Grŵp ar gyfer y Gwasanaeth a benodwyd yn ddiweddar, Mr. Martin O'Keefe, a oedd yn llenwi swydd Mr John Treherne fel Cynrychiolydd y Gwasanaeth Tân ar y Pwyllgor. O ganlyniad, rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr. O'Keefe a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Mr Treherne am ei holl gyfraniadau i'r Pwyllgor hyd yma.

Yna rhoddodd y Rheolwr Grŵp wybod i'r Pwyllgor am y materion canlynol mewn perthynas ag ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2024 fel a ganlyn:

- Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, roedd y Gwasanaeth wedi mynd i: 259 o ddigwyddiadau yn ymwneud â tân, 79 ohonynt yn chwarter tri, sef cynnydd o 8% dros yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd 106 o danau annomestig damweiniol a oedd i raddau helaeth yn cynnwys tanau glaswellt a sbwriel damweiniol, a oedd yn ostyngiad o 17% o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd tanau glaswellt wedi gostwng 63% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd a oedd yn debygol o ganlyniad i'r haf gwlyb. Aethpwyd i 36 o danau domestig damweiniol, a oedd yn ostyngiad cadarnhaol o 14%. Roedd 59% o'r rhain yn danau a ddechreuwyd yn ardal y gegin, a choginio oedd yr achos mwyaf cyffredin, sef 35% o'r holl danau damweiniol mewn anheddau domestig.
- Roedd y Gwasanaeth wedi gwneud llawer iawn o waith diogelwch cymunedol yn ceisio addysgu pobl ifanc am weld byrddau llosgi bwriadol a gweithio gydag asiantaethau partner, Awdurdodau Lleol, a heddluoedd i geisio lleihau tanau llosgi bwriadol, a oedd wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol.
- Roedd y Gwasanaeth wedi mynd i lai o danau batri ïon lithiwm yn y flwyddyn ariannol bresennol, gostyngiad o 15 i 9, a oedd yn gadarnhaol iawn yn enwedig gan fod hon yn dechnoleg sy'n dod i'r amlwg ac yn parhau'n risg sy'n dod i'r amlwg.
- Parhaodd y timau Diogelwch Cymunedol i gynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gosod larymau mwg a rhoi cyngor diogelwch tân cyffredinol i bobl. Dangosodd data bwysigrwydd y mesurau hyn gyda 45% o'r holl danau damweiniol mewn anheddau lle'r oedd system larwm yn bresennol heb unrhyw gamau diffodd tân gan y Gwasanaeth.
- Roedd y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd eithaf sylweddol yn nifer y tanau bwriadol ar draws yr ardal wedi mynd i 153 o danau bwriadol, a oedd yn gynydd o 37%. Roedd gwaith ymyrraeth wedi digwydd mewn ysgolion i geisio lleihau'r cynnydd sylweddol mewn tanau sbwriel bwriadol. Roedd 88% o danau sbwriel bwriadol yn cynnwys sbwriel rhydd, tra bod 20% yn cynnwys tipio anghyfreithlon.
- Y maes sy'n peri'r pryder mwyaf i'r Gwasanaeth ar hyn o bryd oedd llosgi ceir yn fwriadol gyda chysylltiadau ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnydd o 133% o gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Roedd y gwasanaeth wedi mynd i 76 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd yn ardal Bro Morgannwg yn ystod y flwyddyn ariannol, digwyddodd 26 ohonynt yn ystod chwarter tri, a oedd yn gynydd o 17% dros y flwyddyn ariannol flaenorol.

- Roedd cynnydd o 17% wedi bod yn nifer y galwadau gwasanaeth arbennig gydag achubiadau dŵr yn cynyddu 34%. Roedd nifer fawr o'r rhain yn gysylltiedig â phobl mewn trallod naill ai'n bygwth neu'n ceisio mynd i'r dŵr neu'n mynd i'r dŵr yn fwriadol.
- Roedd Chwarter 3 wedi bod yn gyfnod arbennig o ddiddorol a phrysur i'r Gwasanaeth ers penodi'r Prif Swyddog Tân newydd, Is-farsial yr Awyrlu Finn Monahan, a'r arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Yn dilyn diweddariad llafar y Rheolwr Grŵp, cyfeiriodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Dinas Powys at ddigwyddiad tân mewn tŷ yn ardal Dinas Powys ar 7 Ionawr a dywedodd fod rhai adroddiadau pryderus yn dilyn y digwyddiad yn ymwneud â'r Timau Tân ac Achub a oedd yn bresennol yn cael trafferth cael dŵr o hydrantau. Canmolodd y cynrychiolydd hefyd weithredoedd prydlon y swyddogion Tân a olygai nad oedd y tân yn effeithio'n andwyol ar eiddo cyfagos a bod yr amser ymateb yn hynod o gyflym. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Grŵp fod cerbydau ymateb yn cario 1,700 litr o ddŵr a bod gan griwiau'r Gwasanaeth nifer o opsiynau ffynhonnell ddŵr eraill ar gael iddynt hefyd. Pe na bai modd defnyddio hydrant yna byddai hyn yn cael ei adrodd yn syth a byddai'r hydrant yn cael ei ailsefydlu. Nid oedd y Rheolwr Grŵp yn ymwybodol o'r union ddigwyddiad ond byddai'n hapus i drafod y mater ymhellach gyda'r cynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod.

Yna gofynnodd yr Is-gadeirydd am unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas â datblygu Gorsaf Dân Penarth, a dywedodd y Rheolwr Grŵp fod y Gwasanaeth bellach wedi nodi safle amgen a dros dro i griw'r Gwasanaeth ei ddefnyddio tra bod gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn yr Orsaf wreiddiol, a'r gred oedd y byddai'r gwaith yn dechrau'n fuan. Ychwanegodd y Rheolwr Grŵp hefyd ei fod yn ymwybodol o rai pryderon lleol ynglŷn â datblygiad yr Orsaf a seilwaith yr Orsaf ond cadarnhaodd nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i newid model y criw yn yr Orsaf nac ychwanegu offer ychwanegol ar y safle.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y tanau difrifol a oedd wedi bod yn digwydd yn Los Angeles, America, a sut roedd un o'r problemau i'r criwiau Diogelwch Tân perthnasol yn ymwneud â hydrantau nad oeddent yn gweithio neu nad oeddent yn hygyrch. Felly, gofynnodd pa mor aml y gwiriwyd yr hydrantau yn ardal Bro Morgannwg am ddiffygion ffisegol yn ogystal â phwysau uned. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp fod gan y Gwasanaeth arolygwyr hydrantau a fyddai'n gwirio hydrantau yn ffisegol i sicrhau bod pwysau a llif cywir yr hydrantau yn weithredol. Er bod hydrantau yn bwysig i'r Gwasanaeth yn eu hymdrechion ymateb, roedd gan y Gwasanaeth hefyd fesur wrth gefn arall y gellid ei ddefnyddio pe bai angen. Fel pwynt dilynol, gofynnodd yr Is-gadeirydd a allai'r Rheolwr Grŵp rannu manylion adleoli dros dro Gorsaf Dân Penarth gyda'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i'w rhannu â holl Aelodau'r Pwyllgor, ac roedd y Rheolwr Grŵp yn hapus i wneud hyn.

Mewn ymateb i gais am y ffigurau yn ymwneud â nifer yr unigolion a oedd wedi ymgysylltu â chyrsiau Ymwybyddiaeth Traffig Ffyrdd a gynigir gan y Gwasanaeth, dywedodd y Rheolwr Grŵp nad oedd ganddo'r ffigurau adeg y cyfarfod ond yn sicr y byddai'n eu rhannu gyda'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wedyn er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Rheolwr Grŵp O'Keefe am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

#### ENWEBU CYNRYCHIOLWYR O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PW) –

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn adroddiad dilynol i'r fersiwn o'r adroddiad a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Roedd yr adroddiad yn chwilio am gynrychiolydd o Gyngorau Tref a Chymuned (CTCh) i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGS) yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a fyddai'n parhau i gynnwys CTCh yng ngwaith y BGC a'r ddeialog effeithiol a sefydlwyd rhwng CTCh.

Yn y cyfarfod ym mis Hydref, argymhellodd y Pwyllgor y dylid anfon cais at y BGC, y dylid penodi dau gynrychiolydd CTCh i'r Bwrdd, un cynrychiolydd ar gyfer Cyngorau Tref ac un cynrychiolydd ar gyfer Cyngorau Cymuned, a bod y Cynghorydd S. Hodges (Cyngor Tref y Barri) yn parhau i gynrychioli CTCh ar y BGC tan y bydd cais y Pwyllgor yn cael ymateb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ym mis Rhagfyr 2024 fod y BGC wedi ystyried cais y Pwyllgor fod dau gynrychiolydd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd, er mwyn sicrhau cydraddoldeb â chynrychiolaeth arall ar y Bwrdd (er enghraifft y trydydd sector), cadarnhau mai un cynrychiolydd o'r sector CTCh fydd yn cael ei wahodd i eistedd ar y BGC. Cydnabuwyd hefyd fod cyfarfodydd cyfnewid BGC/CTCh hefyd yn gyfle i'r sector gymryd rhan yng ngwaith y BGC ac i drafod materion perthnasol. Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi un cynrychiolydd i eistedd ar y BGC am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Os, fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ym mis Hydref, bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried tymor byrrach, yna roedd y BGC yn fodlon i'r Pwyllgor benodi am lai na dwy flynedd.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr o'r adroddiad, ailadroddodd y Cynghorydd Cave eu pwynt blaenorol sef y byddai'n fuddiol i'r sedd gynrychioliadol gylchdroi rhwng Cyngorau Tref a Chymuned, ac, er tegwch, byddai'n rhesymegol pe bai'r cynrychiolydd nesaf yn unigolyn o Gyngor Cymuned.

Yna galwodd y Cadeirydd bleidlais mewn perthynas â chylchdroi sedd gynrychioliadol unigol y CTCh bob dwy flynedd rhwng Cyngorau Tref a Chymuned, fel y cynigodd gan y Cynghorydd Cave ac eiliwyd gan y Cadeirydd.

Gyda'r Cynnig yn cael ei gynnal, a chylch gwaith swydd gynrychioliadol y CTCh wedi'i gadarnhau, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau, a chafodd y Cynghorydd S. Hodges o Gyngor Tref y Barri a'r Cynghorydd C. Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn eu henwebu. Cyflwynwyd enwebiad ar gyfer Cynghorydd C. Hawkins o Gyngor Cymuned y Wig hefyd; fodd bynnag, tynnwyd yr enwebiad hwn yn ôl wedyn gan y Cynghorydd Hawkins.

Gyda'r ddau enwebiad wedi'u heilio, rhoddodd y Cadeirydd y ddau enwebiad i bleidlais Aelodau Etholedig, gyda dwy bleidlais wedi'u derbyn gan gynrychiolwyr CTCh ar y Pwyllgor ymlaen llaw. Cafodd y Cynghorydd C. Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn ei benodi'n yn gynrychiolydd CTCh ar y BGC am gyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Ionawr 2027.

Yna cyflwynodd y Cadeirydd ddau argymhelliad pellach i'w hystyried gan y Pwyllgor, y cyntaf oedd bod y cynrychiolydd penodedig yn rhannu agendâu cyfarfod BGC gyda phob Clerc TCC lle bo hynny'n bosibl i wneud sylwadau cyn cyfarfodydd y BGC a bod y cynrychiolydd yn darparu diweddariad llafar ar gyfarfodydd BGC a gynhaliwyd yn flaenorol yng nghyfarfodydd dilynol y Pwyllgor fel eitem agenda safonol. Cafodd y ddau argymhelliad eu heili, ac fe'u cynhaliwyd heb unrhyw anghytuno.

Mewn ymateb i awgrym a godwyd gan gynrychiolydd Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Tresimwn mewn perthynas â chael diweddariadau rheolaidd gan Wasanaeth Ambiwllans Cymru hefyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol, awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwneud ymholiadau drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i ba raddau y byddai'r Gwasanaeth yn gallu ymrwymo i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Hodges, pe bai unigolion yn enwebu cynrychiolydd yn y dyfodol, i'r unigolyn gael cytundeb yr enwebeion ymlaen llaw.

I gloi, dywedodd cynrychiolydd Cyngor Tref Penarth, yn eu swyddogaeth flaenorol fel cynrychiolydd BGC ar gyfer y Pwyllgor, ei bod yn hanfodol bod y BGC yn ymgysylltu ymhellach â CTCh, yn enwedig mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwaith y BGC. Mewn ymateb, cynigiodd y Cyfarwyddwr Perfformiad Corfforaethol fwydo sylwadau'r Cynghorydd Cuddy ymlaen i'r BGC.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

#### CYTUNWYD –

- (1) Bod safle unigol Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng Cynghorau Tref a Chymuned.
- (2) Bod y Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned penodedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu agendâu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned lle bo modd er mwyn cael sylwadau cyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- (3) Bod y Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned penodedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi diweddariad llafar ar Gyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd yn flaenorol mewn cyfarfodydd dilynol o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol fel eitem safonol ar yr agenda.
- (4) Penodi'r Cynghorydd Carl Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn yn Gynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, am gyfnod o ddwy flynedd, hyd at Ionawr 2027.



### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod cynrychiolaeth yn adlewyrchu cyfansoddiadau amrywiol Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Bro Morgannwg, gan arwain at enwebiadau'n cael eu ceisio gan Gynghorau Tref yn unig ar gyfer y cyfnod Ionawr 2027 i Ionawr 2029 ac yna Cynghorau Cymuned yn unig am y cyfnod Ionawr 2029. hyd at Ionawr 2031.
- (2) Rhoi cyfle i bob Cyngor Tref a Chymuned drosglwyddo sylwadau i'r Cynrychiolydd cyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- (3) Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am fewnbwn a chynrychiolaeth Cynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- (4) Galluogi cynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned i gael ei benodi i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau ymgysylltu effeithiol â Chynghorau Tref a Chymuned a chadw at Ganllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.